



Cynllunio Gweithlu Clwstwr Gofal Sylfaenol Canllawiau Datblygu cynllun gweithlu ar lefel clwstwr

Cyflwyniad

Mae'r dull hwn o gynllunio gweithlu'r maes gofal sylfaenol wedi'i ddatblygu o ganlyniad i gynllun peilot a gynhaliwyd gan Sgiliau Iechyd gyda Chlystyrau Gogledd a De Cynon. Datblygwyd y dull hwn ynghyd â chyfres o adnoddau i glystyrau eu defnyddio.

Mae'r dull yn cyflwyno fframwaith ar gyfer cynllunio'r gweithlu gofal sylfaenol sydd wedi ei seilio ar arferion gorau cenedlaethol a rhyngwladol. Datblygwyd y dull drwy gydweithrediad a chydweithio rhwng meddygfeydd o fewn pob clwstwr. Mae'n fframwaith a all alluogi clystyrau i gydweithio er mwyn datblygu atebion ar draws y clwstwr i heriau niferus o ran y gweithlu sy'n wynebu'r maes gofal sylfaenol er mwyn sicrhau cynaliadwydd gwasanaethau.

Crëwyd y ddogfen ganllawiau hon i'w defnyddio ar y cyd â'r **Templed Cynllunio Gweithlu Clwstwr** cysylltiedig ac mae'n cynnwys canllawiau penodol sy'n cyd-fynd â'r adrannau gwahanol o'r templed cysylltiedig ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Cefndir

Mae GIG Cymru, fel llawer o economïau iechyd a gofal cymdeithasol eraill ledled y byd, yn wynebu heriau sylweddol o ran sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel ar gael ar lefel fforddiadwy; Mae'r boblogaeth yn heneiddio ac yn byw'n hirach gydag anghenion iechyd mwy cymhleth a galw cynyddol yn sgil hynny. Mae disgwyliadau'r boblogaeth gyffredinol o ran gofal iechyd yn cynyddu hefyd; mae yna ddatblygiadau mawr mewn technolegau, ymyriadau fferyllol newydd a ffyrdd newydd o weithio sy'n dod i'r amlwg. Mae yna ymgais i ddarparu gofal mwy integredig yn y cartref neu'n agosaf at y cartref, sy'n gofyn am weithio ar draws proffesiynau, sefydliadau a sectorau.

Gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, i 90% a mwy o'r cyswllt pobl â GIG Cymru. Mae practis cyffredinol yn elfen graidd o'r gwasanaeth hwnnw a bydd yn parhau felly yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid dyma'r unig elfen ac mae'n rhaid i weithlu'r dyfodol gael ei lywio gan gyfraniad cynyddol integredig gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol a sefydliadau.

Felly, mae'n ofynnol i gynlluniau'r gweithlu sicrhau bod pobl sydd â'r sgiliau, y cymwyseddau, y gwerthoedd a'r ymddygiad priodol yn gallu diwallu anghenion cleifion drwy ddulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau.

Ystyrir bod dull gweithredu sy'n seiliedig ar dimau amlddisgyblaethol yn fodel gweithredol craidd ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r cymysgedd sgiliau'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol ac unigolion.

Yn weithredol, bydd y gweithlu'n dod o wahanol sefydliadau a lefelau (e.e. lefel



meddygon teulu, lefel clwstwr, lefel traws glwstwr neu ardal leol) gan weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dylai cyfansoddiad y gweithlu a'i gymysgedd o sgiliau ar lefel clwstwr fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion y boblogaeth; felly, bydd hyn yn amrywio ar draws clystyrau mewn gwahanol rannau o Gymru a hyd yn oed o fewn ardaloedd byrddau iechyd.

Beth yw cynllunio'r gweithlu?

Mae cynllunio'r gweithlu'n broses ailadroddus i gynllunio, datblygu a darparu gweithlu cynaliadwy o'r maint cywir, gyda'r sgiliau a'r amrywiaeth cywir, wedi'i drefnu yn y ffordd gywir, o fewn cyllideb fforddiadwy ac sy'n gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu gofal i gleifion yn unol â safonau ansawdd gofynnol.

Pam mae angen cynlluniau gweithlu?

Mae gofal sylfaenol yn newid ac mae dulliau newydd o ddarparu gofal yn dod i'r amlwg. Mae llawer o'r ffactorau sy'n sbarduno newid ym maes gofal sylfaenol yn awgrymu bod angen gweithredu ar y cyd ac ar raddfa fel y gellir cael budd o ddulliau amlddisgyblaethol, adnoddau a rennir, arbedion cefn swyddfa a mwy o hyblygrwydd. Ystyrir bod hyn yn hanfodol er mwyn darparu'r gofal sydd ei angen ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac sydd â chydafechedd gydag adnoddau cyfyngedig.

Bydd prosesau effeithiol o gynllunio'r gweithlu ar lefel clwstwr yn helpu i greu gweithlu cynaliadwy ar draws y meddygfeydd o fewn y clwstwr, paratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, nodi a chynllunio ar gyfer unrhyw fylchau yn y gweithlu, gan reoli risg yr un pryd ac archwilio cyfleoedd newydd arloesol o ran y gweithlu. Mae llawer o fanteision i ddatblygu cynllun gweithlu clwstwr a all gynnwys:

- Sicrhau bod gweithlu ar gael sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth y Clwstwr
- Datblygu gwell cysylltiadau gwaith ar draws y clwstwr a chyda phartneriaid eraill
- Rhoi ffocws ar gyfer dulliau ar y cyd posibl o ymdrin â'r gweithlu, gan gynnwys datblygu dulliau o weithio ar draws proffesiynau a ffiniau
- Gwella lefelau cadw a recriwtio staff
- Gwneud y defnydd gorau o sgiliau staff presennol a nodi gofynion yn y dyfodol o ran gofynion sgiliau
- Cyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ar draws y clwstwr.



Dull Cynllunio Gweithlu Clwstwr Gofal Sylfaenol

Cychwyn Arni

1. Diffinio cynllun y clwstwr yn seiliedig ar gyfeiriad polisi

Ble rydych chi nawr?

2. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	3. Dadansoddiad o'r boblogaeth a'r anghenion iechyd clwstwr	4. Dadansoddiad o alwadau gwasanaeth a thueddiadau clystyrau	5. Deall y materion gweithlu presennol ar draws y clwstwr
-------------------------------	---	--	---

Ble ydych chi eisiau bod?

6. Creu'r weledigaeth a rennir ar draws y clwstwr	7. Gofynion gweithlu'r dyfodol
---	--------------------------------

Sut yr ydych yn mynd i gyrraedd yno?

8. Nodi cyfleoedd i weddnewid y gweithlu	9. Archwilio llwybrau cyflenwi a datblygu'r gweithlu	10. Dadansoddiad bwloch - gweithlu presennol yn erbyn y dyfodol	11. Datblygu cynllun gweithredu'r clwstwr	12. Llywodraethu a darparu
--	--	---	---	----------------------------

Mae'r dull yn seiliedig ar bedwar cwestiwn y gallech eu gofyn i chi eich hun, a chefnogir y rhain gan sawl cam cysylltiedig. Mae pob cam yn gysylltiedig ag adran yn y **Templed Cynllunio Gweithlu Clwstwr** cysylltiedig a fydd yn eich helpu i gofnodi a chasglu sail resymegol a chanlyniadau eich cynllun. Bydd mynd drwy'r 12 cam yn sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac wedi ystyried yr holl ffactorau pwysig y mae angen i chi feddwl amdanyn nhw wrth gynllunio'r gweithlu. Yn ymarferol, wrth i chi weithio drwy'r camau fe welwch fod y rhaniadau'n artiffisial ac wrth i chi weithio ar un cam byddwch yn dechrau teimlo'n barod am gwestiynau'r cam nesaf.

Mae **Adnodd Dadansoddi Data'r Gweithlu (Gofal Sylfaenol)** wedi cael ei ddatblygu i'ch helpu i ddadansoddi eich gwybodaeth am y gweithlu o'r **System Adrodd a Gweithlu Cenedlaethol Cymru** ac i gefnogi'r broses o gynllunio gweithlu ar lefel clwstwr. Bydd angen i bob practis yn y clwstwr gwblhau'r arolwg. Bydd y data'n cael ei gasglu ynghyd a'i ddefnyddio i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cam 5 - deall y problemau gweithlu presennol ar draws y clwstwr.



Pwy sydd angen arwain y gwaith o ddatblygu cynllun gweithlu clwstwr?

Wrth i gynlluniau'r gweithlu gofal sylfaenol gael eu datblygu ar lefel clwstwr, cynghorir y dylai cynrychiolydd o bob practis yn y clwstwr fod yn rhan o grŵp **datblygu cynllun y gweithlu** er mwyn sicrhau bod holl bractisau'r clwstwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau a'u bod yn cefnogi'r cynllun a'r modd y caiff ei weithredu. Yn ymarferol, rydym wedi gweld y bydd unigolyn arweiniol o un practis yn ysgwyddo cyfrifoldeb am gydgysylltu cyfarfodydd, trafodaethau a chwblhau'r templed cynllunio'r gweithlu.

Er mwyn llwyddo i gynllunio gweithlu mewn Clystyrau Gofal Sylfaenol mae'n ofynnol gwneud y canlynol:

- **Cydweithio**

Cydweithredu a chydweithio ar draws pob practis mewn clwstwr a chyda grwpiau eraill o randdeiliaid a nodwyd, gan gydweithio i nodi atebion a rennir ar gyfer gweithlu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol lleol.

- **Arweinyddiaeth effeithiol**

Mae angen arweinyddiaeth ymrwymedig a brwdfrydig i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y clwstwr.

- **Rheoli Risg**

Llywodraethu cadarn wrth ystyried cyfleoedd i gynllunio'r gweithlu mewn modd arloesol er mwyn pwyso a mesur y risgiau a'r manteision a datblygu atebion a dulliau lliniaru sy'n galluogi.

- **Rheoli newid**

Rheoli newid yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau ymrwymiad pobl i gymryd rhan yn y broses a chroesawu newidiadau i'r gweithlu y nodwyd eu bod yn ofynnol.



Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Datblygu Cynllun Gweithlu Clwstwr Gofal Sylfaenol

1. Diffinio'r Cynllun Clwstwr

Yn yr adran gyntaf, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pwrpas a chwmpas y cynllun. Dylech nodi ar gyfer pwy y mae'r cynllun gweithlu. Mae'n rhaid i chi fod yn glir pam mae angen y cynllun gweithlu clwstwr, ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio a sut gall eich cynorthwyo i ddiffinio'r angen i'r gweithlu fodloni gofynion gwasanaeth eich clwstwr, gofynion sy'n newid drwy'r amser. Dylech bennu'r grwpiau staff y mae'n eu cwmpasu a bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni.

Pethau i'w hystyried: Y dogfennau allweddol – fel Cynllun Cymru Iachach, ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, Cynlluniau Trawsnewid Cystyrau a pholisïau a strategaethau allweddol eraill, a sganio'r gorwel am newidiadau posibl.

1.1 Diben: Beth yw'r sail resymegol dros y cynllun a phwy ddylai gyfrannu ato

- Beth yw nodau/amcanion y cynllun clwstwr?
- Beth fydd cynllun da ar gyfer y gweithlu yn eich galluogi i'w wneud?

1.2 Cwmpas: Diffiniwch y cwmpas unwaith y byddwch wedi cael eglurder am y sail resymegol a'r penderfyniadau y bydd yn eu cefnogi.

- Beth sydd wedi'i gynnwys a beth sydd heb ei gynnwys?

1.3 Alinio: Ystyriwch y polisïau, y strategaethau a'r ysgogiadau allweddol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru a nodi sut bydd y cynllun yn ceisio alinio â nhw.

2. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid¹

Yng Ngham 2 mae angen i chi fod yn glir ynghylch pwy sydd angen bod yn rhan o'r broses gynllunio i ddatblygu'r cynllun clwstwr. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol¹ eraill a phartneriaid yn hanfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal dadansoddiad o randdeiliaid² a allai gynnwys: Timau gofal sylfaenol, darparwyr gwasanaethau eraill y mae eich clwstwr yn ymwneud â nhw fel gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn ogystal â staff, cleifion a'r cyhoedd. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus.

2.1 Perchnogaeth ac ymgysylltu

- Pwy fydd yn berchen ar y cynllun gweithlu clwstwr?
- Pwy y mae angen iddynt gyfrannu ato'n fewnol yn y clwsr ac yn allanol?

2.2 Nodi Rhanddeiliaid

- Gwnewch restr o'r rhanddeiliaid allweddol ac ystyriwch sut y mae angen eu cynnwys

[Gall nodi a dadansoddi rhanddeiliaid²](#) fod yn ddefnyddiol yma gan ei bod yn bwysig nodi pwy sydd angen dylanwadu arnynt os yw'r cynllun am gael ei gyflawni'n llwyddiannus.

¹ Mae rhanddeiliaid yn bobl sydd â diddordeb yng nghynllun y gweithlu ac yn gallu effeithio arno neu'n gallu cael eu heffeithio ganddo

² Dadansoddiad rhanddeiliaid yw nodi a gwerthuso rhanddeiliaid er mwyn blaenoriaethu, rheoli ac ymgysylltu â hwy'n effeithiol



3. Dadansoddi Poblogaeth ac Anghenion Iechyd y Clwstwr

Mae angen i'ch cynllun gweithlu fod yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol yr ydych yn darparu gwasanaethau ar ei chyfer. Felly, mae'n hanfodol deall proffil ac anghenion iechyd y boblogaeth er mwyn ystyried yr effaith y bydd y rhain yn ei chael ar y gwasanaethau y mae angen i chi eu darparu, a'r gweithlu sydd ei angen i gynnal y gwasanaethau hynny.

Er mwyn dod o hyd i'r math hwn o wybodaeth, gallwch fwrw golwg ar wefan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru <http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/Online-data-Tools>, neu siarad ag arweinydd/cyswllt lleol Bwrdd Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel arfer, mae yna ddadansoddiad cyffredinol o'r boblogaeth yn eich Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol hefyd. Mae'r mathau o wybodaeth sy'n arbennig o ddefnyddiol i'w deall yn cynnwys y ddemograffeg (proffil o'r boblogaeth a disgwyliad oes), amddifadedd cymdeithasol, mynychder clefydau cronig a thueddiadau lleol o ran ymddygiad a ffordd o fyw.

Peidiwch â diystyru eich gwybodaeth leol eich hun – defnyddiwch unrhyw ddata rydych chi wedi'i gasglu o bractisau ar draws y clwstwr.

3.1 Poblogaeth

- Beth yw'r ffactorau allweddol o ran y boblogaeth sy'n dylanwadu ar y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?

3.2 Dadansoddiad o anghenion iechyd

- Beth yw'r prif anghenion iechyd sy'n dylanwadu ar y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?

3.3 Cipolwg defnyddiol

- A oes unrhyw dueddiadau o ran y boblogaeth neu iechyd sy'n amlwg yn lleol?
- Sut mae'r wybodaeth hon yn rhoi cipolwg o'r ffordd y gall fod angen i wasanaethau newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg?



4. Dadansoddiad o'r Galw am Wasanaethau - Tueddiadau Clwstwr

Mae'n bwysig deall a disgrifio'r gwasanaethau rydych yn eu darparu ar hyn o bryd ar draws y clwstwr. Dylech ystyried unrhyw ddata mesuradwy sydd gennych am y gwasanaethau hynny gan y bydd hyn yn helpu i lunio llinell sylfaen gadarn y gallwch ei defnyddio wedyn wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth a'r gweithlu.

Dylech restru a disgrifio'r gwasanaethau allweddol rydych yn eu darparu (agweddau clinigol ac anghlinigol o'r gwasanaethau hynny) lle rydych yn gweld cynnydd neu ostyngiad arwyddocaol yn y galw. Mae'n ddefnyddiol deall hefyd a oes galw mawr am unrhyw dasgau a gweithgareddau penodol o fewn unrhyw wasanaeth neu os nad oes eu hangen mwyach. Bydd y wybodaeth hon yn cefnogi eich penderfyniadau wrth ystyried lle mae angen unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth a'r gweithlu er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol. Lle nad oes data ar gael, defnyddiwch eich gwybodaeth am wasanaethau lleol fel tystiolaeth anecdotaidd.

4.1 Trosolwg o'r gwasanaethau presennol

- Rhowch drosolwg cryno o'r gwasanaethau rydych yn eu darparu ar hyn o bryd ar draws y clwstwr a nodi lle mae'r gwasanaethau dan bwysau.

4.2 Newidiadau yn y galw

- A oes yna unrhyw dueddiadau penodol o ran y galw am wasanaethau ar draws y clwstwr? Os felly, beth ydyn nhw? Dylech feintoli'r newid yn y galw os oes modd.
- A allwch chi nodi unrhyw sgiliau/tasgau a gweithgareddau penodol gan y gweithlu y mae galw mawr amdanynt?
- A oes unrhyw gyfnodau tymhorol y gwyddoch amdanynt sy'n effeithio ar eich gofynion o ran y gweithlu?
-

5. Deall Problemau Presennol y Gweithlu ar draws y Clwstwr

Mae angen i'r clwstwr gael darlun clir o'r union weithlu sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar draws practisau'r clwstwr a'r problemau a'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu. Cofiwch, elfen fwyaf gweithlu'r dyfodol fydd eich gweithlu presennol, ac yn aml mai heriau'r gweithlu yw'r prif ysgogiad dros wneud newidiadau i'r gweithlu e.e. materion recriwtio, staff sy'n heneiddio a swyddi gwag hirdymor.

Mae proffil manwl o nodweddion y gweithlu presennol ar draws y clwstwr yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn nodi lle yn union y mae'r gwasanaethau dan bwysau eisoes a lle gall heriau ymddangos yn y dyfodol. Diben yr **Adnodd Dadansoddi Data'r Gweithlu (Gofal Sylfaenol)** yw cynorthwyo eich clwstwr i ddadansoddi data eich gweithlu, sydd i'w gael o **System Adrodd a Gweithlu Cenedlaethol Cymru** fel y gallwch goladu data eich gweithlu yn rhwydd ar lefel clwstwr er mwyn llywio'r cynllun hwn.

5.1 Penawdau proffil y gweithlu

- Beth yw nodweddion y gweithlu presennol ar draws y clwstwr?
- Mathau o staff, cyfwerth ag amser llawn, niferoedd, proffil oedran, proffil rhyw ac ymddeol, swyddi gwag a'r rhai sy'n gadael, cymysgedd sgiliau, rhaniad rhan-amser/llawn amser
- Trosiant, swyddi gwag a chyfradd gadael
- Materion recriwtio a chadw staff
- Sgiliau a phrinder sgiliau



5.2 Heriau a phroblemau allweddol y gweithlu

- O benawdau proffil y gweithlu, a allwch nodi heriau a materion allweddol y gweithlu y
- mae angen mynd i'r afael â nhw yng nghynllun y gweithlu?

6. Creu'r weledigaeth a rennir – Natur y gwasanaeth yn y dyfodol

Hyd yma, rydych wedi bod yn coladu a dadansoddi gwybodaeth a data sydd, law yn llaw â'ch gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau, yn rhoi darlun cadarn o ble rydych chi nawr, a beth sy'n sbarduno'r angen am newid. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae angen i'r clwstwr greu gweledigaeth a rennir yn awr sy'n nodi'r gwasanaeth allweddol (gan gynnwys meysydd posibl lle gellid ailgynllunio gwasanaethau) a themâu, blaenoriaethau a chanlyniadau'r gweithlu y gallwch chi oll anelu atynt. Mae'n rhaid i chi fod yn glir ynghylch y buddiannau bwriedig y weledigaeth rydych chi wedi'i chreu.

Unwaith y byddwch wedi cytuno ar weledigaeth a rennir, yna bydd angen i chi ystyried gwahanol opsiynau (modelau) ar gyfer gwireddu'r weledigaeth. Bydd rhai opsiynau'n well nag eraill o ran sicrhau manteision penodol. Ar y pwynt hwn, mae'n werth ystyried hefyd sut y byddwch yn *gwerthuso* a *mesur effaith* unrhyw newidiadau rydych yn eu hystyried fel rhan o'ch gweledigaeth.

Mae adnoddau a all helpu i archwilio pa rymoedd sy'n cefnogi newid a pha rymoedd sy'n llesteirio newid rydych chi'n ei ystyried yn cynnwys dadansoddiad [PESTLE](#)³ a/neu ddadansoddiad [SWOT](#)⁴.

6.1 Gweledigaeth a rennir

- Beth yw'r weledigaeth a rennir ar gyfer y clwstwr?
- Beth yw manteision/nodau gweledigaeth y clwstwr?
- Beth rydych yn ceisio'i gyflawni drwy'r cynllun hwn ar gyfer y gweithlu?

6.2 Arfarnu opsiynau⁵

- A allwch nodi model a ffeirir er mwyn gwireddu'r weledigaeth a rennir? Pam? Beth yw'r sail resymegol?
- A yw'n sicrhau'r manteision yn fwy effeithiol nag opsiynau eraill? Neu a yw'n haws ei gyflawni?

³Dadansoddiad PESTLE - Dadansoddiad o ffactorau posibl h.y. grymoedd Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol, Amgylcheddol a allai effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir

⁴Dadansoddiad SWOT - Dadansoddiad o'r Cryfderau a'r Gwendidau, y Cyfleoedd a'r Bygythiadau y mae sefydliad yn eu hwynebu.

⁵Mae'r arfarniad o opsiynau'n ystyried nifer o opsiynau posibl y gallech eu dewis, eu trafod/gwerthuso a phenderfynu pa fodel fyddai eich dewis chi a pham.



7. Gofynion ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol

Mae'r cam hwn yn cynnwys nodi pa weithlu fydd ei angen, y sgiliau fydd eu hangen ar y gweithlu hwnnw a'r mathau a'r niferoedd o aelodau staff fydd eu hangen er mwyn gwireddu'r weledigaeth drwy eich dewis o fodel ar gyfer y gweithlu.

Nid yw'n ymwneud yn unig â'r niferoedd neu'r mathau o rolau sydd gennych chi eisoes neu unrhyw rolau ychwanegol rydych chi'n meddwl y bydd eu hangen arnoch; o'i wneud yn gywir, dylai herio trefniadau cyfredol y gweithlu hefyd, drwy ystyried pa fath o aelodau staff ddylai ac a allai gyflawni gweithgareddau gwahanol ar draws y clwstwr. Gall fod angen newid rhai rolau presennol. Dylai fod yn broses systematig o ofyn cwestiynau, archwilio tystiolaeth a llunio cyfansoddiad neu batrwm ar gyfer y gweithlu sy'n gwneud yr holl bethau y mae angen i'r trefniant ei wneud. Dylai cyfleoedd i weddnewid y gweithlu ddeillio o archwilio gofynion y gweithlu.

Bydd dadansoddi gweithgarwch a chymhwysedd yn eich helpu i nodi'r hyn y mae angen i'r gweithlu ei wneud. Mae angen i chi ystyried 'faint' o 'beth' fydd ei angen arnoch er mwyn darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

7.1 Dadansoddi gweithgarwch

- Beth yw'r gweithgareddau allweddol y bydd angen i'r (dadansoddiad o weithgarwch) gweithlu ei wneud yn y model newydd?
- A ellir rhannu'r gweithgareddau yn ôl cymwyseddau, sgiliau a gwybodaeth?
- Faint o weithgarwch fydd ei angen? (ystyriwch y galw a nodwyd gennych yng ngham 4)

7.2 Mathau a nifer yr aelodau staff fydd eu hangen

- Nodwch y mathau a'r nifer o aelodau staff fydd eu hangen
- A yw'r timau y bwriedir darparu'r gwasanaeth drwyddynt wedi'u nodi?



8. Nodi Cyfleoedd i Weddnewid y Gweithlu

Dylai cyfleoedd i weddnewid y gweithlu, i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon, ddeillio o'r cam yn nodi gofynion y gweithlu. Wrth ystyried gofynion y gweithlu, mae angen i chi ystyried lle mae yna gyfleoedd i wella cynhyrchiant⁶ a chanlyniadau a allai ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, newid cymysgedd sgiliau a chyflwyno rolau newydd a/neu well.

Mae ein profiadau yn ystod y pandemig coronafeirws yn dangos ein bod yn gallu gwneud newidiadau cyflym i'r ffyrdd rydym yn darparu gwasanaethau i'n cleifion. Yr hyn a fu'n gymorth yn hyn o beth oedd y ffaith i ni fynd ati'n gyflym i fabwysiadu a defnyddio technolegau digidol a'r ffyrdd rydym wedi'u defnyddio i weithio'n wahanol. Gallwn ddefnyddio'r profiadau hyn i ystyried a chynllunio ar gyfer cyfleoedd eraill i weddnewid y ffyrdd rydym yn gweithio, ac yn defnyddio sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau'r tîm amlddisgyblaethol i gefnogi gofal sylfaenol. A oes cyfleoedd i ddefnyddio technolegau newydd eraill, therapiâu newydd, patrymau gweithio gwahanol, i ailddosbarthu tasgau, a rhannu rolau ar draws y clwstwr? Beth fydd manteision ac effaith unrhyw rai o'r rhain? Dylech ystyried datblygiad eich staff presennol er mwyn bodloni gofynion newidiol y gweithlu, o ran rolau clinigol ac anghlinigol a ffyrdd o weithio.

Wrth ystyried datblygu rolau newydd neu ffyrdd newydd o weithio, mae'n ddefnyddiol adolygu pa fathau o ddulliau arloesol sy'n cael eu datblygu mewn mannau eraill. Man cychwyn defnyddiol yw'r adnodd [Compendium o Rolau a Modelau Newydd ym maes Gofal Sylfaenol](#).

8.1 Cynhyrchiant

- A ydych wedi ystyried sut gallech wella cynhyrchiant?
- Disgrifiwch y goblygiadau o ran cynhyrchiant yr ydych wedi'u hystyried

8.2 Rolau newydd a ffyrdd newydd o weithio

- A oes ffyrdd newydd o weithio wedi'u harchwilio?
- A oes rolau newydd wedi'u nodi fel rhan o ofynion y gweithlu?
- Os felly, pa rolau/ffyrdd o weithio? Pam?
- Pa effaith ydych chi'n disgwyl iddynt ei chael?

⁶Cynhyrchiant - sicrhau mwy o weithgarwch mewn gwasanaethau ar gyfer lefel benodol o fewnbwn gan y gweithlu, neu, gyflawni'r un gweithgarwch gyda lefel lai o fewnbwn gan y gweithlu heb gyfaddawdu ar ansawdd.



9. Archwilio Llwybrau Cyflenwi a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r cam hwn yn cynnwys adolygiad mewnol ac allanol o'r sgiliau sydd ar gael. Y nod cyffredinol yw cael rhywfaint o sicrwydd bod modd darparu'r gweithlu a nodwyd gennych ar gyfer y dyfodol i'r clwstwr drwy gamau 7 ac 8.

Bydd yn cynnwys ystyried y gweithlu presennol ar draws y clwstwr, eu sgiliau presennol a'r modd y'u trefnir, ac unrhyw feysydd a nodwyd eisoes sy'n peri problem (bydd allbynnau cam 5 yn werthfawr yma).

Bydd yn golygu ystyried hefyd o ble y daw'r sgiliau a'r rolau newydd rydych wedi'u nodi. Mewn geiriau eraill, beth allwch chi ei wneud i ddylanwadu ar gyflenwad y gweithlu yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad a nodwyd? Cofiwch, efallai mai'r cyflenwad digonol o staff â sgiliau penodol, neu, fel arall, brinder staff penodol, yw'r prif sbardun dros gynllun y gweithlu felly mae angen archwilio atebion amgen ar gyfer cyflenwi.

9.1 Ystyried cyfansoddiad gweithlu'r dyfodol

- A yw'r cyfansoddiad rydych yn ei awgrymu ar gyfer y gweithlu'n realistig ac yn fforddiadwy ac a ellir ei gyflawni?
- Beth sydd angen newid o ran y gweithlu mewnol (y gweithlu sydd gennych eisoes)?
- Sut allwch chi greu a chyflwyno'r gweithlu newydd (a gwahanol mewn rhai achosion) sydd ei angen arnoch?

9.2 Llwybrau cyflenwi a datblygu

- Beth allwch chi ei wneud i ddylanwadu ar gyflenwad a datblygiad y gweithlu yn y dyfodol fel ei fod yn bodloni'r gofyniad a nodwyd?
- A ydych wedi ystyried gwahanol lwybrau cyflenwi?
- Sut ydych chi wedi ymgorffori'r broses o gynllunio olyniaeth?

⁷ Cynllunio ar gyfer olyniaeth yw'r broses o nodi a datblygu staff newydd i'r dyfodol sy'n gallu cymryd lle staff presennol pan fyddant yn gadael neu'n ymddeol ac mae'n cynyddu nifer y staff profiadol a galluog sydd ar gael sy'n barod i ymgymryd â'r rolau hyn wrth iddynt ddod ar gael.



Dadansoddiad o'r bylchau - y gweithlu presennol o gymharu â gweithlu'r dyfodol

Mae'r camau blaenorol wedi rhoi darlun i chi o'r math o weithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol a'r math o weithlu sy'n debygol o fod ar gael. Gall bylchau godi nid yn unig yn nifer cyffredinol y staff sydd eu hangen yn y gwahanol rolau ond hefyd yn y sgiliau sydd eu hangen arnynt.

Mae bylchau mwy cynnil yn gallu codi hefyd o ran hyblygrwydd, lleoliad gweithio a ffyrdd o weithio. e.e. gweithio am 7 diwrnod, amseroedd brig, gwasanaethau gyda'r nos, gwasanaethau cymunedol neu a rennir mewn canolfannau ac ati.

10.1 Cynnal dadansoddiad o'r bylchau^a ac ystyried sut gallech bontio bylchau a nodwyd (atebion)

- Bylchau o ran sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd y staff presennol y mae angen eu datblygu.
- Bylchau mewn sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd staff presennol a allai greu galw am fath gwahanol o weithiwr (rolau newydd neu estynedig)
- Bylchau o ran y rolau sydd eu hangen (rhwng y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol)
- Bylchau o ran patrymau, hyblygrwydd a ffyrdd o weithio

Dalier Sylw: Rydych wedi edrych ar y math o weithlu sy'n ofynnol yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd gennych (cam 6 a 7) ac rydych wedi archwilio'r math o weithlu y gallwch ei gyflenwi (camau 8 a 9) ac wedi nodi'r bylchau a'r ffyrdd posibl o lenwi'r bylchau hynny - efallai y bydd angen i chi ailedrych ar ymarferoldeb neu'r gallu i gyflawni eich gweledigaeth a rennir a'ch newid i wasanaethau / ffyrdd o weithio arfaethedig.

^aMae dadansoddiad o'r bylchau yn cyfeirio at y bwllch rhwng "ble'r ydym ni" (y sefyllfa bresennol) a "ble rydym eisiau bod" (y sefyllfa darged) a gellir cyfeirio ato hefyd fel dadansoddiad o anghenion, asesiad o anghenion neu ddadansoddiad o anghenion-bylchau.



11. Datblygu Cynllun Gweithredu a Blaenoriaethau Gweithlu Clwstwr

Mae'r cam hwn yn cynnwys myfyrio ar y camau blaenorol a phenderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod staff ar gael i ddarparu unrhyw wasanaethau sydd wedi'u hailgynllunio. Mae angen datblygu **cynllun gweithredu gweithlu** clwstwr ar gyfer darparu'r staff cywir, gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir, gyda cherrig milltir ac amserlenni.

Mae angen i'ch cynllun gweithredu ystyried datblygu sgiliau staff presennol, ffyrdd newydd o weithio, defnyddio ac adleoli sgiliau ar draws y clwstwr, rolau newydd sydd eu hangen, cynllunio ar gyfer recriwtio a chadw staff, cynllunio ar gyfer olyniaeth, newidiadau i brosesau a thechnolegau gwaith a'u heffaith ar y gweithlu.

Mae'r cynllun gweithredu yn **allbwn allweddol o broses cynllunio'r gweithlu** gan mai dyma fydd eich **canllaw ymarferol ar gyfer rhoi'r blaenoriaethau a nodwyd gennych ar waith ar gyfer datblygu a chynllunio'r gweithlu**. Bydd rhai camau o fewn gallu'r clwstwr i fwrw ymlaen â nhw, tra gall eraill fod angen gwaith er mwyn sicrhau cymorth gan randdeiliaid allanol. Dylid cynnwys y gwaith hwn yn y cynllun gweithredu.

11.1 Datblygu cynllun gweithredu cynllunio'r gweithlu gan ddefnyddio amcanion CAMPUS⁹

- Beth yw eich blaenoriaethau o ran cynllunio'r gweithlu?
- Pwy sydd angen gwneud beth, erbyn pryd, gan nodi pa adnoddau sydd eu hangen?

11.2 Cefnogi'r broses o gynllunio camau gweithredu

- Beth yw'r meysydd mwyaf sylweddol ar gyfer newid yn y gweithlu? Allwch chi gostio'r rhain?
- Pa strategaethau addysg a hyfforddiant lleol sy'n cefnogi'r cynllun hwn (a ydych wedi cysylltu â'r Arweinydd Gofal Sylfaenol?)
- A yw momentwm wedi cael ystyriaeth ar gyfer y newid y bydd meddygon teulu a staff uwch yn ei orfodi?
- A oes perchenogaeth gan randdeiliaid allweddol? A yw staff clwstwr, y Bwrdd Iechyd Lleol, adnoddau ariannol wedi'u nodi?
- Sut gellir cynnal y momentwm ar gyfer newid?

⁹ Mae Amcanion CAMPUS yn nodau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwylol (neu wedi'u cyfyngu gan amser).



12. Llywodraethu a Chyflawni

Mae angen proses lywodraethu¹⁰ ar waith i gynnwys y ffordd y caiff cynlluniau'r gweithlu eu monitro a'u haddasu. Mae'n rhaid i'r **cynllun gweithredu** fod yn glir ynghylch y ffordd y bydd llwyddiant yn cael ei fesur, drwy fonitro ac adolygu'r gweithredu'n rheolaidd, fel y gellir cymryd unrhyw gamau unioni mewn modd amserol.

Mae angen i uwch aelodau staff ar draws y clwstwr hyrwyddo'r broses o weithredu cynllun y gweithlu. Dylid gwerthuso pob newid yn y gweithlu.

12.1 Gweithredu

- Beth yw cerrig milltir allweddol eich cynllun?
- Sut fydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei fonitro?
- A oes yna unrhyw fesurau a all eich helpu i fonitro cynnydd ar weithredu eich cynllun ar gyfer y gweithlu? e.e. rolau neu setiau sgiliau newydd yn cael effaith ar fynediad, canlyniadau neu foddhad cleifion?

12.2 Mesur cynnydd

- Sut fydd y canlyniadau a'r goblygiadau anfwriadol yn cael eu mesur?
- Allwch chi nodi risgiau a mesurau lliniaru i'r gweithlu h.y. camau y gellir eu cymryd i reoli a lleihau unrhyw risg bosibl?

12.3 Adnewyddu eich cynllun a'ch gweithredoedd

- Beth yw'r broses ar gyfer ailedrych ar eich cynllun ac adnewyddu unrhyw ofynion?

¹⁰ Governance is the process of decision-making and the process by which decisions are implemented

